ST16

Datblygu Cynllun Teithio Ysgol

Gwybodaeth ar gyfer rhieni ac ysgolion

Ffeithiau Allweddol

. mae CTY da yn cynnwys cymuned gyfan yr ysgol

. mae CTY yn mynd i.r afael â nid dim ond teithio ond hefyd materion iechyd, addysg a chymdeithasol

. gall gwaith ar CTY gael ei ymgorffori i'r cwricwlwm ac mewn gweithgareddau dosbarth

. gall gweithgorau CTY roi.r cynllun ar waith a.i gynorthwyo i gynnal momentwm

. gall Ymgynghorwyr Teithio Ysgol (neu rywun mewn rôl debyg yn eich awdurdod lleol) gynorthwyo i greu CTY.

Cyflwyniad

Mae ysgolion yn creu Cynllun Teithio Ysgol (CTY) er mwyn dangos sut y maent yn bwriadu gwneud teithio i.w safle ac oddi yno yn fwy diogel a mwy cynaliadwy ar gyfer eu disgyblion, rhieni ac athrawon. Dylai.r ddogfen CTY ei hun yna gysylltu gyda chynllun datblygu neu gynllun gwella yr ysgol. Mae.n adnodd da er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy.n teithio i.r ysgol mewn car, ffigur sydd ar hyn o bryd yn 30%, yn ôl Ystadegau Trafnidiaeth Gymrieg 2009 (Llywodraeth Cynulliad Cymru). Caiff CTY eu creu mewn ymgynghoriad â chymuned gyfan yr ysgol. Maent i gyd yn wahanol iawn, gan fod pob un yn rhoi ystyriaeth i.w sefyllfa leol a.r tueddiadau presennol. Yn ogystal â theithio diogelach, mae CTY yn ymwneud â gwella iechyd; ehangu addysg; a mynd i.r afael ag allgau cymdeithasol. Maent yn cyfrannu i wneud y gymuned leol yn wyrddach a gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb.

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT

Datblygu eich Cynllun Teithio Ysgol

Er mwyn cynorthwyo i roi eich CTY ar waith, beth am sefydlu gweithgor penodol? Efallai y byddai'r grŵp bychan hwn yn cynnwys y pennaeth, rhieni a llywodraethwyr, swyddogion yr awdurdod lleol ac, wrth gwrs, rhai disgyblion hollbwysig. Bydd yn dal angen i'r ysgol gyfan fod yn rhan mewn nifer o'r camau, yn arbennig mewn ymgynghoriadau cychwynnol; y CTY mwyaf llwyddiannus yw'r rheiny sy'n ymgysylltu â'r ysgol gyfan.

Dyma rai awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y gallai eich CTY ei gwmpasu. Gyda phwyntyddion ac awgrymiadau i'ch cynorthwyo i lywio drwy'r broses, bydd y canllaw hwn o gymorth wrth i chi ddechrau meddwl am, casglu cefnogaeth ar gyfer, a gweithredu eich CTY eich hun. Er mwyn gweld rhai enghreifftia DU gyfan, yn cynnwys cynlluniau ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac ysgolion annibynnol, ewch i: www.sustrans.org.uk/what-we-do/safe-routes-to-schools/resources

1 Disgrifiwch eich ysgol

Cynhwyswch nifer y disgyblion, math o ysgol a'i lleoliad; dalgylch; cynlluniau ar gyfer ehangu yn y dyfodol ac unrhyw ffactorau eraill a allai effeithio ar deithio ysgol.

CYNGOR Ceisiwch ddangos sut y mae'r CTY yn gweddu i ethos cyffredinol eich ysgol.

"Gan mai pobl ifanc sy'n gwneud y siwrnai i'r ysgol ac adref pob dydd, mae'n naturiol mai nhw fydd â rhai o'r syniadau a'r awgrymiadau gorau."

2 Rhowch y dystiolaeth

Dangoswch dystiolaeth o'ch ymgynghoriadau o ran ymddygiad teithio presennol staff a disgyblion, a sut y byddent yn ddelfrydol am deithio. Dylid cyflwyno data arolwg mewn ffigurau a chanrannau, yn cynnwys nifer yr ymatebwyr neu bobl a holwyd. Er mwyn cael y wybodaeth hon gallai disgyblion a rhieni lenwi holiadur yn archwilio'r rhesymau dros eu dewis o ddull teithio, megis y rheiny sydd ar gael i'w lawrlwytho o adran Pecyn Cymorth ein gwefan (fel uchod), neu ddefnyddio **www.viewfinder.infomapper.com**

CYNGOR Efallai y bydd arolwg codi dwylo mewn gwasanaeth neu yn ystod cyfnod cofrestru yn rhoi'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch.

3 Rhowch grynodeb o'r problemau

Nodwch y materion allweddol ar gyfer disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Mae'r adran hon yn nodweddiadol yn cynnwys problemau traffig wrth glwydi'r ysgol; rhesymau dros beidio â cherdded neu feicio i'r ysgol; a materion yn ymwneud ag amseroedd dechrau a gorffen a gweithgareddau ar ôl ysgol. Nodwch sut y canfuwyd y problemau hyn, er enghraifft mewn noson rieni, yn ystod gweithdy, neu drwy archwiliad teithio.

CYNGOR Bydd llawer o'r wybodaeth yn yr adran hon yn dod yn syth o'ch ymgynghoriadau a'ch arolygon cychwynnol.

> Ni chaiff CTY eu hysgrifennu dros nos. Bydd yn cymryd amser a bydd yn gofyn am ymrwymiad gan nifer o bobl, ond bydd yn werth treulio'r amser.

Astudiaeth Achos

Nid oes yn rhaid i CTY fod yn ddogfennau sych ac amleiriog, gallant fod yn lliwgar a llawn hwyl. Yn Swydd Aberdeen a Moray mae disgyblion wedi mynd â CTY adref ar lieiniau sychu llestri a matiau bwrdd er mwyn rhannu'r neges gyda chymuned ehangach yr ysgol. Yn yr un modd gallai prosiectau gael eu hariannu drwy nawdd gan fusnesau lleol, neu eu cymorthdalu drwy werthu eitemau o'r fath i rieni a ffrindiau.

4 Targedau 'CAMPUS'

Daw amcanion eich CTY o'r ymgynghori. Bydd pob un yn disgrifio sut y mae eich ysgol yn bwriadu ei gyflawni. Beth fydd yr ysgol yn ei wneud i leihau siwrneiau ceir gan 20%? Beth a wneir i wella diogelwch ar y ffordd ac erbyn pryd? Pa gynlluniau all dreblu nifer y beicwyr mewn blwyddyn? Datblygwch fentrau i'ch cynorthwyo i gyrraedd eich targedau a chyflawni eich amcanion. Enghreifftiau yw clybiau beicio gyda sesiynau cynnal a chadw; gosod man storio diogel ar gyfer beiciau (neu ar gyfer bagiau'r rheiny a fydd yn dymuno cerdded); neu gysylltu gyda chwmnïau bws lleol i newid amserlenni er mwyn bodloni'r galw newydd o du'r staff a'r disgyblion.

CYNGOR Gosodwch dargedau CAMPUS ar gyfer pob amcan, gan eu gwneud yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.

5 Cynllun gweithredu

Mae'n hollbwysig eich bod chi nawr yn creu ac yn dilyn cynllun gweithredu er mwyn cyflawni amcanion eich CTY. Ar gyfer pob un o'r targedau a'r mentrau y byddwch yn penderfynu arnynt, ystyriwch gofnodi'r canlynol:

- dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer tasgau allweddol
- gweithredu sydd ei angen gan gyrff eraill (e.e. awdurdodau lleol neu'r heddlu)
- costau o ran amser ac arian
- ffynonellau ariannu

CYNGOR Nodwch berson arweiniol yn eich ysgol i gadw datblygiad eich CTY ar y trywydd cywir.

6 Monitro ac adolygu

Wedi treulio amser gwerthfawr yn datblygu eich CTY, byddwch am wneud yn siŵr bod gwaith tuag at ei dargedau yn gwneud cynnydd gwirioneddol. Wrth i bethau newid efallai y bydd rhai targedau gwreiddiol wedi eu cyrraedd neu ei goresgyn yn gynnar, neu nad yw rhai yn berthnasol mwyach. Ystyriwch:

- sut a phryd y caiff newidiadau eu monitro
- sut y caiff unrhyw newidiadau eu hadrodd
- pryd a phwy fydd yn adolygu'r cynllun.

CYNGOR Cadwch eich CTY yn hyblyg, er mwyn gwneud newid mor gadarnhaol â phosibl i ymddygiad teithio eich ysgol.

Manteision CTY

Os dechreuwch gyda chamau bach, cewch eich synnu gan faint y gellir ei gyflawni drwy waith yn yr ystafell ddosbarth neu fentrau eraill sy'n bodoli'n barod.

Bydd CTY yn:

- dangos ymrwymiad eich ysgol i bryderon amgylcheddol a chymunedol
- hyrwyddo materion teithio ysgol ymhlith rhieni, disgyblion a staff
- profi i arolygwyr ysgolion (er yn canolbwyntio ar safonau ysgol) eich bod yn rhoi ystyriaeth o ddifrif i addysg datblygu cynaliadwy, gyda phrosiectau sy'n cynnwys cymuned ehangach yr ysgol
- cynorthwyo i sicrhau arian ar gyfer mentrau Llwybrau Diogel i'r Ysgol a phrosiectau megis parcio beiciau neu welliannau diogelwch ar y ffyrdd
- gwella siawns eich ysgol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu ysgol pellach
- darparu fframwaith ar gyfer cysylltiadau cwricwlwm ar bynciau mor amrywiol â dinasyddiaeth, daearyddiaeth ac addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol
- cyfrannu i fentrau megis Ysgolion Iach ac Eco-ysgolion.

Cynnwys y disgyblion

Mae cyfranogiad disgyblion yn hollbwysig mewn datblygu CTY llwyddiannus, oherwydd yn bennaf eu hymddygiad teithio hwy yr ydych yn gobeithio dylanwadu arno a'i newid er gwell gyda'r cynllun hwn. Mae'n bwysig bod barn a safbwyntiau'r disgyblion yn cael eu ceisio a'u hystyried.

Gall cyfranogiad disgyblion ymestyn i gyflenwi prosiectau a monitro cynnydd drwy'r cwricwlwm, cyngor ysgol a chlybiau tu allan i'r ysgol. Gweler ein taflen wybodaeth ar 'Ymgysylltiad a Chyfranogiad Disgyblion mewn Cynlluniau Teithio Ysgol' i gael rhagor o syniadau.

Gwybodaeth bellach

Gall Sustrans roi i chi fanylion cyswllt ymgynghorydd neu gydlynydd teithio ysgol eich awdurdod. Byddant yn gallu rhoi cyngor, templedi a chysylltiadau a chefnogaeth i chi a'ch cefnogi yn eich ymdrechion i greu a rhoi ar waith CTY effeithiol. Ewch i'r wefan Teithio Ysgol **www.sustrans.org.uk/schooltravel** i gael y canlynol:

. newyddion a.r wybodaeth ddiweddaraf am faterion teithio ysgol
. gwybodaeth benodol am bob un o ranbarthau.r DU
. adnoddau y gellir eu lawrlwytho, yn cynnwys taflenni gwybodaeth eraill, astudiaethau achos, deunyddiau cwricwlwm a chylchlythyron
. manylion am brosiect Bike It Sustrans, cynllun sy.n gweithio.n uniongyrchol gydag ysgolion i gael rhagor o bobol ifanc i feicio.

Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

Department for Transport

Ynglyn â Sustrans

Sustrans yw elusen trafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU, yn gweithio ar brosiectau ymarferol fel y gall pobl ddewis teithio mewn ffyrdd sydd o fudd i'w hiechyd a'r amgylchedd. Mae Sustrans yn gweithio'n agos gydag ysgolion a phobl ifanc i alluogi llawer mwy o blant i gerdded a beicio'n ddiogel i'r ysgol a thu hwnt.

Prif swyddfa: Sustrans, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol, BS1 5DD
www.sustrans.org.uk Llinell wybodaeth Teithio Ysgol: 0117 915 0100 Ffotograffiaeth: ©Sustrans stuff.
Mae Sustrans yn elusen gofrestredig rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SCO39263 (Yr Alban).

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT